*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 2060 (Cy.209)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *31 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1,7 ac 8 o Ddeddf Iechyd Anifeilaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002; mae'n gymwys i Gymru yn unig a daw i rym ar 1 Awst 2002.

**Diwygiad i Orchymyn Crynoadau Anifeiliad (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (**2**) yn unol â darpariaethau canlynol yr erthygl hon.

(2) Yn erthygl 2—

(a) cyn y diffiniad o "crynhoad anifeiliaid", mewnosodir y diffiniad canlynol—

"ystyr "anifeiliaid" ("*animals*"*)* yw gwartheg (ac eithrio buail a iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;".

(b) cyny diffiniad o "diheintydd a gymeradwywyd", ychwanegir y diffiniad canlynol—

"mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys corlannau a chlwydi;".

(**1**) 1981 p.22. Gweler adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672); ac i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban fe'u trosglwyddwyd i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd ymhellach wedyn bob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S.2002/283 (Cy.34), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1358 (Cy.134).

(3) Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraffau 1 a 2, ym mhob man y ceir y geiriau “28 diwrnod”, rhoddir y geiriau “27 diwrnod” fel y bo'n briodol;

(b) ym mharagraff 1(b) yn lle'r geiriau “ar y corlannau, clwydi ac unrhyw gyfarpar arall” rhoddir y geiriau “ar yr holl gyfarpar”; ac

(c) ym mharagraff 4, dilëir y geiriau “corlannau, clwydi ac” ac “arall”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Gorffennaf 2002

*D. Elis-Thomas*
Y Llywydd

Llofnodwyd ar 31 Gorffennaf 2002

Adran yr Amgylchedd,
Bwyd a Materion Gwledig

*Whitty*
Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio ymhellach Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/283(Cy.34)("y prif Orchymyn") fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1358 (Cy.134).

Mae'r Gorchymyn hwn—

(a) yn cyfyngu'r categorïau o anifeiliaid y mae'r prif Orchymyn yn gymwys iddynt i gynnwys gwartheg (ac eithrio buail a iacod), ceirw, geifr, defaid a moch yn unig.

(b) yn diffinio "cyfarpar" at ddibenion y prif Orchymyn ac yn diwygio'r cyfeiriadau at "corlannau, clwydi a chyfarpar arall" yn unol â hynny.

(c) yn lleihau'r cyfnodau cyfyngedig o 28 diwrnod i 27 diwrnod.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.